Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Cwrt Henri**
**Yr Ystafell Ddarllen**
**Dryslwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA32 8RU**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/02/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Cwrt Henri yn cyfarfod yn yr Ystafell Ddarllen, ym mhentref Dryslwyn tua 12 milltir o dref Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin.  Mae’r lleoliad ar agor am bedwar bore'r wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i gymryd hyd at 20 o blant fesul sesiwn.  Ar hyn o bryd, mae 12 o blant dwy a hanner a thair oed ar y gofrestr, gyda 11 ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi’i hariannu.  Daw'r mwyafrif o’r plant o gartrefi lle mae’r Saesneg yn brif iaith.  Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae dau aelod o staff.  Maent yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach.  Mae’r arweinydd gweithredol a’r cymhorthydd, sydd ar gytundeb dros dro, wedi bod yn ei swyddi presennol ers Medi 2014.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ionawr 2014 a chan Estyn ym mis Gorffennaf 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn
- Mae gan y rhan fwyaf o'r plant agweddau da tuag at ddysgu
- Mae'r holl blant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda iawn
- Mae gweithgareddau diddorol yn sicrhau ymglymiad a mwynhad y plant yn eu dysgu
- Mae ethos cynhwysol yn creu awyrgylch gynnes a chynhaliol i'r holl blant
- Mae partneriaethau yn cyfrannu'n adeiladol at waith y lleoliad

Er hyn:

- Nid yw medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r (TGCh) plant wedi eu hymestyn yn ddigonol
- Nid yw gweithdrefnau cynllunio yn hyrwyddo cynnydd cyson yn y dysgu
- Nid yw'r addysgu yn herio'r plant mwy galluog yn ddigon cyson

### Rhagolygon gwella

***Prif arfarniad***

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r arweinydd gweithredol yn ymgymryd â'i rôl yn gydwybodol
- Mae gwaith tîm effeithiol yn darparu amgylchedd pwrpasol i'r plant
- Mae gwybodaeth sicr gan yr arweinydd gweithredol o brif gryfderau'r lleoliad
- Mae'r cynllun datblygu newydd yn rhoi sylw priodol i ddatblygu medrau'r plant
- Mae'r arweinydd gweithredol a chadeirydd newydd y pwyllgor rheoli yn cydweithio'n adeiladol

Er hyn:

- Mae'r ansefydlogrwydd ynglŷn ag arweinyddiaeth y lleoliad yn parhau
- Mae gweithdrefnau arwain a rheoli'r lleoliad yn parhau i ddatblygu
- Megis cychwyn y mae cynllunio ar gyfer gwella
- Nid yw rôl y pwyllgor rheoli wedi datblygu ddigon

## Argymhellion

A1 Ymestyn medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant

A2 Datblygu manylder y cynllunio i hyrwyddo dilyniant cyson ym medrau'r plant

A3 Sicrhau bod yr addysgu yn darparu her briodol i'r holl blant

A4 Sefydlu gweithdrefnau arfarnu i adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw

A5 Datblygu rôl strategol y pwyllgor rheoli

A6 Sicrhau arweinyddiaeth sefydlog i'r lleoliad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu o'u man cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda yn ystod gweithgareddau grŵp a sesiynau stori. Mae ychydig o'r plant yn trafod eu gweithgareddau yn hyderus gan ddefnyddio geirfa addas. Mae'r dysgwyr ifanc yn deall cyfarchion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml yn y Gymraeg ond ymatebion byr iawn a gynigir ar lafar. Mae'r mwyafrif o'r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn eu trin yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau mewn print. Mae'r mwyafrif o'r plant yn defnyddio eu medrau gwneud marciau yn briodol yn eu chwarae. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwybod nifer o ganeuon a hwiangerddi ac yn eu canu'n hyderus a brwdfrydig.

Mae bron pob un o'r plant yn adrodd rhifau i ddeg yn hyderus. Mae'r mwyafrif o'r plant hynaf yn cyfrif gwrthrychau i fyny at o leiaf pump yn gywir. Maent yn deall ystyr rhai termau mathemategol, megis mawr a bach, llawn a gwag, mewn sefyllfaoedd ymarferol. Mae'r mwyafrif o'r plant yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol ac yn dechrau deall pwrpas arian drwy chwarae rôl yn y siop.

Gyda chymorth, mae'r mwyafrif o'r plant yn defnyddio medrau TGCh sylfaenol yn briodol i symud gwrthrychau ar y sgrin, recordio ychydig sylwadau a gosod cyfarwyddiadau syml i degan rhaglenadwy.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd priodol o'u medrau meddwl a datrys problemau cynnar mewn gweithgareddau megis adeiladu gyda blociau, coginio ac arbrofi gyda magnetau. Gwnânt ddefnydd cynhyrchiol o'u medrau creadigol wrth brintio, arlunio a pheintio. Maent yn trin a defnyddio offer bach, megis pensiliau, brwshys paent, siswrn a rholbrenni, gyda rheolaeth dda.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Mae gan y rhan fwyaf agweddau da tuag at ddysgu ac maent yn dyfalbarhau gyda'u gweithgareddau am gyfnodau addas o amser. Maent yn ymddwyn yn dda iawn ac yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn hyderus. Mae lefelau presenoldeb yn dda.

Mae medrau personol y plant yn datblygu'n dda. Mae'r holl blant yn ffurfio perthynas adeiladol gyda phlant eraill a chydag oedolion. Maent yn derbyn cyfrifoldebau, megis 'helpwr y dydd' a thacluso ar ôl gweithgareddau, yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cydweithio'n effeithiol mewn gweithgareddau grŵp ac maent yn barod i rannu adnoddau ac offer.

Mae llawer o blant yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Gallant enwi ffrwythau, llysiau a rhai bwydydd iach amser byr brydau. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo cyn bwyta byrbrydau.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol trwy'r profiadau dyddiol, trwy ymuno mewn gweithgareddau gyda'r ysgol gynradd a thrwy weithgareddau codi arian at achosion da.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu diddorol ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Mae'r gweithgareddau'n seiliedig ar gyfres o themâu sy'n gweddu i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Maent yn cynnwys astudiaethau o dopigau megis Anifeiliaid y Jyngl, Fi fy Hun, a thestunau tymhorol. Mae defnydd addas o rai ymweliadau, megis â swyddfa bost y pentref, i gefnogi dysgu'r plant.

Mae'r fframwaith gynllunio yn adnabod y medrau ac yn nodi'r prif weithgareddau yn briodol. At ei gilydd, fodd bynnag, nid oes cynllunio digon manwl i sicrhau datblygiad cynyddol ym medrau'r plant.

Mae gweithgareddau dyddiol yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn cynnwys cyfleoedd i wrando ar storïau, canu caneuon a rhigymau, cyfrif a thrafod rhifau ac arbrofi gyda siapiau. Mae ychydig o gyfleoedd i'r plant ddefnyddio medrau TGCh sylfaenol yn eu chwarae.

Mae profiadau dysgu cynhyrchiol yn datblygu medrau creadigol a chorfforol y plant yn effeithiol. Mae rhai cyfleoedd priodol i'r plant ddechrau ymarfer eu medrau ymchwiliol, er enghraifft trwy edrych ar y mesuryddion i weld y tymheredd a faint o lawiad a gafwyd yn ystod y nos.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn llwyddiannus drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant a'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sydd yn cael eu harwain gan oedolion a gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis eu hunain. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau wedi'u cynllunio'n ddigon manwl bob amser i gynnig her briodol i'r holl blant, ac yn arbennig y plant mwy galluog.

Mae pwyslais da ar ddarparu cyfleoedd i blant i fod yn weithredol yn eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn ymuno'n effeithiol yn y gweithgareddau ac yn gwneud defnydd pwrpasol o adnoddau i gefnogi'r dysgu. Ar adegau, fodd bynnag, ni wneir digon o ddefnydd o'r cyfleoedd i ymestyn iaith y plant drwy gyflwyno geirfa a phatrymau brawddeg newydd. Mewn sesiynau stori ac amser cylch, er enghraifft, prin yw'r defnydd o ddulliau holi i ddarparu cyfleoedd i'r plant drafod ac ateb cwestiynau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn medru trafod eu datblygiad yn briodol. Mae trefn sefydlog ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd y plant ar draws y

chwe maes dysgu. Mae gafael sicr gan yr arweinydd gweithredol o'r cofnodion ond nid oes digon o ddefnydd o'r wybodaeth ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Mae trefn effeithiol i annog plant i gadw samplau o'u gwaith mewn ffeiliau personol.

Caiff rhieni eu hysbysu'n briodol am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol a thrwy adroddiad ysgrifenedig addas. Mae cyfleoedd buddiol i rieni drafod yr adroddiadau a samplau o waith eu plant yn unigol gyda'r ymarferwyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae sylw da i hyrwyddo eu dealltwriaeth o bwysigrwydd golchi dwylo a thrin offer yn ddiogel. Mae trefniadau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant.

Mae cyfleoedd priodol i godi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Er enghraifft, mae defnydd effeithiol o'r thema 'Bwyd' i ddarparu cyfleoedd i'r plant flasu, coginio a thrin bwydydd gwahanol.

Mae trefniadau sefydlog ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen. Mae gan y lleoliad bolisi clir sy'n cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Mae llinellau cyfathrebu priodol ag asiantaethau allweddol megis gwasanaethau cefnogi plant a therapyddion lleferydd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Ymgymerir ag asesiadau risg yn briodol.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn llwyddiannus. Mae gwerthoedd fel caredigrwydd, a phwysigrwydd rhannu a chymryd tro yn cael eu meithrin yn effeithiol trwy weithgareddau dyddiol. Mae'r profiadau, megis cynnig gweddi cyn gadael a dathliadau'r Nadolig, yn cyfrannu'n briodol at ddatblygiad ysbrydol y plant. Mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu Gŵyl Divali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r cyfleoedd i dyfu llysiau a phlanhigion, ac ymwneud â gweithgareddau ailgylchu a chompostio, yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd yn briodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi mynediad cyfartal i bob plentyn i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth a gwerth i gefndiroedd amrywiol plant ac ymatebant yn briodol. Llwyddant i greu amgylchedd cynnes a chyfeillgar i bob plentyn.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr gyda chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cynnig cyfleusterau addas. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd llawn o'r lle sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd

o weithgareddau gwahanol o amgylch y neuadd. Mae’r arddangosfeydd o samplau o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd lliwgar. Mae digon o adnoddau ar draws y rhan fwyaf o’r meysydd dysgu. Mae’r ystod o adnoddau TGCh yn fwy cyfyng ac yn darged priodol yng nghynllun datblygu’r lleoliad. Mae’r ardal ddysgu awyr agored yn fechan ond yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer ystod o weithgareddau. Mae’r adeilad yn lan a diogel.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae’r arweinydd gweithredol yn gymharol newydd i’w swydd ac yn datblygu ei gwybodaeth am brosesau arwain a rheoli’r lleoliad yn briodol. Mae ganddi amcanion a gwerthoedd eglur sy’n seiliedig ar ddatblygiad a lles plant. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu’n briodol yn ethos a gwaith y lleoliad. Mae’r cyfathrebu effeithiol gyda’r cymhorthydd, y pwyllgor rheoli a’r rhieni yn arwain at berthynas waith llwyddiannus. Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n agos fel tîm ac yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae arferion beunyddiol yn gweithio’n ddidrafferth a chaiff polisïau addas eu gweithredu.

Mae’r pwyllgor rheoli yn datblygu ei ddealltwriaeth o’i gyfrifoldebau. Mae’r cadeirydd newydd a’r swyddogion yn ymgymryd â’u dyletswyddau’n gydwybodol ac yn cynnig cymorth parod i’r lleoliad. Mae’r pwyllgor yn gweithio’n galed i godi arian ychwanegol. Mae trefn briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr ond nid yw’r gweithdrefnau wedi eu sefydlu’n ddigon cadarn i adnabod eu datblygiad proffesiynol pellach.

Mae’r ymarferwyr yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu’r Cyfnod Sylfaen, hybu arferion bwyta’n iach a datblygu cysylltiadau gyda’r ysgol gynradd leol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr arweinydd gweithredol wybodaeth sicr o brif gryfderau’r lleoliad. Mae’n ceisio barn y rhieni, athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin ac yn gweithredu ar y cyngor a gynigir. Mae’r ymarferwyr yn barod i wrando ar syniadau newydd ac i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Mae’r drefn o gyd-gynllunio a thrafod yn ddatblygiad adeiladol. Er hyn, nid oes digon o ddefnydd o ddulliau arfarnu i adnabod a mynd i’r afael â’r meysydd sydd angen sylw.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar draws holl agweddau’r ddarpariaeth ond nid yw wedi’i ddiweddaru i adlewyrchu’r sefyllfa bresennol. Gyda chymorth yr athrawes gyswllt, mae'r arweinydd gweithredol wedi creu cynllun datblygu newydd sydd yn cynnwys targedau perthnasol ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau penodol er mwyn cyflawni’r targedau a osodir. Mae ei weithredu, fodd bynnag, yn ei ddyddiau cynnar.

Mae'r lleoliad wedi rhoi sylw priodol i fwyafrif yr argymhellion yn adroddiad blaenorol yr arolygwyr.  Nid yw'r argymhelliad i ehangu'r cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau TGCh wedi'i gyflawni'n llawn.

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro'n rheolaidd gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a chytunir ar feysydd addas i gael sylw.  Mae strategaethau priodol ar waith sydd yn gwella'r ddarpariaeth mewn agweddau megis trefniadaeth sesiynau.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae partneriaeth gadarn gyda rhieni a chafodd hynny ei gadarnhau yn y sgyrsiau a gafwyd yn ystod yr arolygiad.  Mae'r ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod â rhieni ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.  Maent yn darparu gwybodaeth berthnasol iddynt am weithgareddau'r lleoliad trwy'r hysbysfwrdd, posteri a chylchlythyron.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau da gyda'r ysgol leol.  Mae'r plant yn elwa o'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau, fel y gwasanaeth Nadolig, gyda disgyblion yr ysgol.  Mae'r berthynas agos yn helpu'r plant i drosglwyddo'n ddidrafferth i gyfnod nesaf eu haddysg.

Mae'r berthynas adeiladol gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, swyddogion ac aelodau'r pwyllgor rheoli, a swyddog Mudiad Meithrin yn cynorthwyo'r ymarferwyr yn briodol i ddatblygu gwaith y lleoliad.  Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned yn sicrhau cefnogaeth dda i weithgareddau codi arian ar gyfer y lleoliad, ac ar gyfer achosion da.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae nifer digonol o ymarferwyr.  Mae digon o adnoddau yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu sy'n cael eu defnyddio'n briodol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r arweinydd gweithredol yn mynychu hyfforddiant addas ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant.  Mae defnydd addas o'r hyfforddiant mewn agweddau megis trefniadaeth gweithgareddau a hyrwyddo medrau chwarae annibynnol.

Mae gan y trysorydd ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu gan y pwyllgor rheoli yn ôl anghenion y lleoliad.  Mae defnydd llwyddiannus o grantiau a mentrau codi arian er mwyn ychwanegu at yr adnoddau.

O ystyried deilliannau'r plant a'r diffygion mewn agweddau ar y ddarpariaeth, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 12 | 8 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 12 | 8 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 67% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 12 | 9 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 12 | 8 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 11 | 0 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 92% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 9 | 3 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 12 | 10 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 12 | 4 | 3 | 1 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 33% | 25% | 8% | 0% | | |
| | | 65% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 12 | 7 | 3 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 58% | 25% | 8% | 0% | | |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 12 | 10<br>83% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 12 | 3<br>25% | 1<br>8% | 2<br>17% | 0<br>0% | 6 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 30% | 3% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 70% | 24% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 12 | 10<br>83% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 61% | 31% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 12 | 8<br>67% | 4<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |